



Teitl: Title:	Polisi Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc (Adolygwyd Awst 23)
Fersiwn: Version	Fersiwn 2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	EIA Young Adult Carers Policy
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Teitl swydd / Job title Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Rhestrwch nhw / Please list Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant: Communications & Culture Committee:		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	6 Medi	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	<i>Amherthnasol</i>
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	<i>Amherthnasol</i>	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	Awst 2026		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Polisi Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc

1. Cyflwyniad	3
2. Diffiniadau	3
3. Cwmpas	3
4. Cymorth a Gynigir	4
5. Y Gymraeg	4

Polisi Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc wedi'i ddatblygu i gydnabod, hyrwyddo a chynorthwyo myfyrwyr a phrentisiaid sydd â chyfrifoldebau gofalu am aelod o'r teulu, partner neu ffrind yn eu cartref. Cefnogir y polisi hwn yn llawn gan Fwrdd Corfforaeth a Thîm Rheoli'r Coleg. Mae'r Coleg yn credu bod gan yr holl Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc yr hawl i addysg waeth beth fo'u chyfrifoldebau i ddarparu gofal i aelod o'r teulu.

Pan fydd Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc yn darparu gofal i rywun yn eu teulu sydd â salwch difrifol, anabledd neu broblem camddefnyddio sylweddau, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial. Mae Coleg Cambria yn cydnabod hyn ac wedi ymrwmo i sicrhau bod cymorth ar gael i gefnogi Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc i gyflawni eu cymhwyster.

2. Diffiniadau

Mae Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc yn fyfyrwyr rhwng 16 a 25 oed sy'n darparu gofal di-dâl i ofalu am aelod o'r teulu neu ffrind sy'n anabl, yn sâl yn gorfforol neu'n feddyliol neu sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau. Yng Ngholeg Cambria rydym yn cydnabod y gall gofalu hefyd gynnwys gofal corfforol ac emosiynol, neu gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch neu lesiant rhywun. Yn aml iawn bydd lefel y cyfrifoldeb a gymerir gan Ofalwr sy'n Oedolion Ifanc yn helaeth ac o ganlyniad, gall effeithio ar addysg y person ifanc.

3. Cwmpas

Mae gan Goleg Cambria aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc, sef Cydlynnydd Gwasanaethau Myfyrwyr. Byddant yn sicrhau bod yr holl Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a nodwyd yn gwybod sut y gallant gael cymorth. Mae'r Coleg yn mynd ati i geisio adborth gan Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc er mwyn llunio a gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth y mae'r Coleg yn eu darparu ar eu cyfer. Bydd yr holl Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc yn cael cynnig cymorth gan y Gwasanaethau Myfyrwyr, a fydd wedi cael hyfforddiant ac yn gallu cynorthwyo'r Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc yn effeithiol gyda'u hanghenion penodol.

Mae gan Goleg Cambria ymrwymiad i:

- Gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cenedlaethol a lleol a deddfwriaeth a chanllawiau sy'n effeithio ar Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.
- Cyrchu a darparu hyfforddiant i staff am oedolion ifanc sy'n gofalu a'u problemau.
- Sicrhau bod Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth, bod gwybodaeth am gymorth ar gael i Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a'i bod hi'n amlwg i ofalwyr sut i gael gafael ar y wybodaeth.
- Defnyddio sesiynau Ymsefydlu Myfyrwyr i sicrhau bod gan yr holl fyfyrwyr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.

4. Cymorth a Gynigir

Mae Coleg Cambria yn nodi bod y cymorth canlynol ar gael i holl ofalwyr sy'n oedolion ifanc yn y coleg:

- Mae gan y Coleg weithdrefn er mwyn adnabod oedolion ifanc sy'n gofalu wrth iddynt gofrestru yn y coleg.
- Bydd unrhyw berson ifanc sy'n cael ei adnabod fel gofalwr sy'n oedolyn ifanc tra yn y Coleg yn cael ei gyfeirio at wasanaethau priodol yn amodol ar ei ganiatâd/ei chaniatâd.
- Bydd Coleg Cambria yn sicrhau bod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn gallu defnyddio'r holl wasanaethau bugeiliol a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael yn y coleg.
- Bydd y Coleg yn hyblyg gyda phresenoldeb hwyr o bryd i'w gilydd oherwydd rôl gofalwyr sy'n oedolion ifanc; os yw hyn yn digwydd yn rheolaidd, bydd darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith i ddod o hyd i ateb sy'n cydymffurfio â'r holl bolisiâu cyfredol.
- Bydd y Coleg bob amser yn hyblyg o ran materion gofalwyr sy'n oedolion ifanc a'u hanghenion o ran cynnal cyfrinachedd.
- Mae Coleg Cambria yn cydnabod na fydd yn rhaid i ofalwyr sy'n oedolion ifanc drafod eu sefyllfa deuluol oni bai eu bod yn teimlo'n gyfforddus. Bydd rôl gofalu person ifanc yn cael ei chydnabod a'i pharchu.
- Bydd y Coleg yn darparu cyfleoedd i ofalwyr sy'n oedolion ifanc siarad â rhywun yn gyfrinachol. Ni fydd eu sefyllfa yn cael ei thrafod o flaen eu cyfoedion.
- Bydd Coleg Cambria yn sicrhau bod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn cael defnyddio ffôn yn ystod amser egwyl a chinio er mwyn eu galluogi i wneud galwadau ffôn personol os ydynt yn teimlo bod angen gwneud hyn.
- Gall Ymgynghorwyr Gwasanaethau Myfyrwyr drafod dyddiadau cau ar gyfer gwaith cwrs ac asesiadau ar ran y Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc lle bo angen gwneud hyn o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu.
- Bydd y Coleg yn cefnogi rhieni ag anawsterau symudedd i gael mynediad i safleoedd y Coleg.
- Bydd y Coleg yn darparu opsiynau cyfathrebu amgen i rieni gofalwyr sy'n oedolion ifanc sydd â nam ar y synhwyrâu neu sy'n gaeth i'r tŷ; bydd hyn yn cynnwys opsiynau cyfathrebu amgen ar gyfer nosweithiau rhieni.
- Bydd darpariaethau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion ifanc nad yw eu rhieni'n gyrru oherwydd salwch neu anabledd, gan ddilyn gweithdrefnau diogelu bob amser.
- Bydd Coleg Cambria bob amser yn adrodd am unrhyw achosion o berson ifanc a all fod yn cyflawni rôl ofalu amhriodol sy'n achosi pryder uniongyrchol am eu diogelwch.

5. Y Gymraeg

Mae'r polisi hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr holl gyfarfodydd, gohebiaeth a gwasanaethau cymorth sy'n rhan o'r polisi hwn yn cael eu cynnig yn Gymraeg.